Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Cylch Meithrin Nefyn
# Y Caban
# Ysgol Gynradd Nefyn
# Ffordd Dewi Sant
# Nefyn
# Gwynedd
# LL53 6AE

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2014**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/06/2014**

## Cyd-destun

Meithrinfa cyfrwng Cymraeg yw Cylch Meithrin Nefyn sy'n rhan o ddarpariaeth Mudiad Ysgolion Meithrin a Phartneriaeth Plant a Phobl Ifanc Gwynedd. Mae'r feithrinfa wedi'i lleoli mewn caban ar dir yr ysgol ers 2005. Daw mwyafrif helaeth o'r plant un ai o Nefyn ei hun neu o bentrefi cyfagos. Cymraeg yw prif iaith llawer o'r plant, a daw'r gweddill o aelwydydd di-Gymraeg.

Mae 15 o blant yn mynychu'r Cylch, ac o'r rhain, mae naw ohonynt wedi'u hariannu gan y Bartneriaeth. Cynhelir sesiwn o ddwy awr a hanner am bedwar bore'r wythnos ond nid yw pob plentyn yn mynychu'r holl sesiynau.

Caiff y Cylch ei staffio gan arweinydd a dwy gymhorthydd dysgu. Mae ganddynt oll gymwysterau priodol sy'n gysylltiedig ag addysg y blynyddoedd cynnar.

Daw plant o bob gallu a chefndir cymdeithasol ac ieithyddol i'r cylch ac nid oes yr un plentyn ag anghenion dysgu ychwanegol. Ar hyn o bryd, ychydig iawn o blant o dras ethnig sy'n mynychu'r Cylch.

Mae'r caban lle cartrefir y feithrinfa yn addas o ran maint ac yn cynnwys prif ystafell, storfa, cyntedd a thoiledau. Mae ardal gaeedig y tu allan i'r caban.

Bydd y plant yn trosglwyddo i'r ysgolion cynradd lleol lle maent yn parhau i dderbyn eu haddysg trwy gyfrwng y Gymraeg.

Cafodd y lleoliad ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ym Mehefin 2013 a chan Estyn yng Ngorffennaf 2008.

# Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

## Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn dda oherwydd bod:

- y plant yn datblygu medrau llythrennedd a rhifedd yn dda yn ystod eu cyfnod yn y lleoliad;
- ymddygiad y plant yn y lleoliad yn dda iawn;
- y lleoliad yn darparu ystod o brofiadau dysgu ysgogol sy'n apelio at ddychymyg y plant;
- yr addysgu'n gyson dda; ac mae'r
- lleoliad yn darparu gofal, cefnogaeth ac arweiniad o ansawdd da i bob plentyn.

## Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r lleoliad yn dda oherwydd bod:

- arweinwyr yn llwyddo i greu awyrgylch hapus a phwrpasol ar gyfer dysgu;
- ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth dda o gryfderau'r lleoliad a'r meysydd i'w gwella;
- sylw da yn cael ei roi i flaenoriaethau lleol a chenedlaethol ac mae ffocws cryf ar ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd;
- gan y lleoliad hanes da o wella safonau a darpariaeth ar gyfer plant; a bod
- y lleoliad yn defnyddio ystod o bartneriaethau yn llwyddiannus i wella deilliannau ar gyfer y plant.

## Argymhellion

A1 Gwneud gwell defnydd o ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant

A2 Sicrhau cyfleoedd cyson i blant werthfawrogi pwysigrwydd cynaliadwyedd

A3 Sicrhau prosesau mwy cadarn i'r pwyllgor rheoli dderbyn gwybodaeth am berfformiad y cylch gan yr arweinydd

A4 Gwella'r drefn o roi gwybodaeth i rieni am ddyddiau pan fydd y cylch ar gau

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn y cylch, mae bron pob plentyn yn gwneud cynnydd gwerthfawr ac yn datblygu agweddau positif iawn at ddysgu.

Mae medrau iaith bron pob plentyn yn datblygu'n drwyadl. Mae parodrwydd y plant i wrando ar gyfarwyddiadau ac i ymateb yn llwyddiannus i'r rhain ar lafar ac mewn gweithred yn gryfder amlwg. Maent yn hoff iawn o siarad gyda'i gilydd a gydag oedolion am yr hyn maent yn ei wneud a dysgu ac mae bron pob un yn gwneud hyn yn hyderus. Dangosant eu bod yn mwynhau canu caneuon a rhigymau cyfarwydd gan ymuno yn yr hwyl o wneud symudiadau i gyd-fynd â'r geiriau.

Mae llawer yn dewis mynd i nôl llyfr i'w ddarllen o'i gwirfodd, a dangosant eu bod yn gwybod sut i ddal llyfr a throi tudalennau yn gywir. Maent yn amlwg yn mwynhau llyfrau cyfarwydd am gymeriadau adnabyddus megis y Dewin Dwl a'r Llipryn Llwyd ac yn gallu siarad yn fywiog am yr hyn sy'n digwydd. Mae pob un yn mwynhau ac yn awyddus i wrando ar storïau gan ymateb yn llwyddiannus i'r cwestiynau.

Mae llawer iawn yn datblygu eu medrau ysgrifennu cynnar. Gwnânt hyn yn effeithiol drwy wneud marciau pwrpasol yn gyson ar bapur, yn y tywod neu wrth arbrofi gan ddefnyddio sialc. Mae'r goreuon yn medru ysgrifennu eu henwau heb fawr o gymorth.

Mae bron pob plentyn yn datblygu dealltwriaeth o rifau'n dda gan gyfrif, adnabod ac enwi rhifau i bump yn hyderus. Mae ychydig yn cyfrif yn gywir hyd at 20. Maent yn gyson yn defnyddio ystod o iaith fathemategol yn dda gyda'i gilydd wrth chwarae a dysgu gan fwynhau gwneud hynny. Er enghraifft, maent yn disgrifio darnau toes fel 'bach' a 'mawr' wrth ymateb i weithgaredd, gyda'r mwy abl yn dechrau defnyddio pren mesur hyd at 10cm. Maent wrth eu bodd yn grwpio gwrthrychau o wahanol fathau yn ôl lliw, maint a siâp yn gywir.

Datblyga'r plant fedrau corfforol da trwy ystod o weithgareddau pwrpasol yn yr ystafell a thu allan. O fewn yr ystafell, mae eu gallu i drin offer bach fel brwsys paent a siswrn yn llwyddiannus iawn a dangosant reolaeth dda ohonynt. Y tu allan, maent yn datblygu medrau i reoli offer mawr fel beiciau tair olwyn a cheir yn fedrus o amgylch trac neu drwy rwystrau.

Mae medrau dysgu annibynnol a medrau meddwl y plant o ran dewis gweithgareddau a chanolbwyntio ar dasg yn datblygu'n llwyddiannus iawn. Mae medrau'r plant, yn arbennig y rhai mwy abl, i ddatrys problemau trwy ail greu patrwm yn llwyddiannus yn datblygu'n dda.

**Lles: Da**

Mae pob plentyn yn cyrraedd y lleoliad yn hapus ac yn mynd yn syth at weithgaredd yn annibynnol. Maent yn ymateb yn gadarnhaol i drefn ddyddiol y cylch ac yn dangos agweddau cadarnhaol tuag at ddysgu. Mae eu gallu i ganolbwyntio a dyfalbarhau er mwyn gorffen tasg, wedi datblygu'n effeithiol ym mhob gweithgaredd.

Mae ymddygiad bron pob plentyn yn dda iawn ac maent yn gwrtais i'w gilydd ac i oedolion. Mae'r plant yn ddieithriad yn cydweithio a chwarae'n dda â'i gilydd. Mae pob plentyn yn barod ac yn awyddus i helpu i dacluso ac mae plant yn ymgymryd â bod yn "helpar y dydd" yn gyfrifol iawn.

Mae medrau cymdeithasol y plant yn datblygu'n dda wrth iddynt gyd-chwarae a chyd-fwyta. Maent yn fonheddig ac yn dweud plîs a diolch yn gyson. Trwy olchi dwylo pob bore cyn y byrbryd, mae'r plant yn dod yn ymwybodol o bwysigrwydd hylendid da.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r cylch yn cynllunio gweithgareddau yn effeithiol ac yn sicrhau bod y plant yn cael profiadau cyson o fewn y chwe maes dysgu. Mae'r cynllunio yn nodi'n glir beth yw'r gweithgareddau ffocws a beth sy'n barhaus neu wedi ei gyfoethogi. O ganlyniad, mae plant o bob gallu yn cyrraedd eu potensial.

Mae'r gweithgareddau y tu fewn a'r tu allan yn ennyn diddordeb y plant yn llwyddiannus. Cynigir cyfleoedd cyson i'r plant feithrin ac ymarfer eu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) ac mae hyn yn arwain at safonau da. Rhoddir llawer o gyfleoedd pwrpasol i blant wneud dewisiadau ac i ddatblygu eu medrau meddwl a dychmygol drwy weithgareddau diddorol megis chwarae rôl a gwisgo i fyny.

Mae'r cylch yn darparu cyfleoedd da er mwyn datblygu hyder ac annibyniaeth gynyddol yn llwyddiannus yn y rhan fwyaf o blant. Maent yn datblygu cyfleoedd gwerthfawr i blant ddatrys problemau ac mae'r goreuon yn gwneud hyn yn dda.

Caiff y plant cyfleoedd cyson i ddatblygu eu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru trwy gyflwyno llyfrau gan awduron o Gymru yn gyson a dathlu gŵyl Ddewi a Santes Dwynwen.

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o'r gymuned i gyfoethogi profiadau'r plant. Maent yn cael cyfle i ymweld â siop a chaffi'r pentref i brynu nwyddau ac i ddysgu am rôl pobl yn y gymuned. Maent hefyd yn cael cyfle i fynd i'r parc ac i lan y môr i sylwi ar fyd natur a mwynhau'r cyfleusterau. Serch hynny, nid yw'r lleoliad yn gwneud digon o ddefnydd o ymwelwyr i gyfoethogi profiadau dysgu'r plant.

## Addysgu: Da

Mae ystod ac ansawdd dulliau addysgu'r cylch yn effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn brofiadol ac yn deall gofynion y Cyfnod Sylfaen yn dda. Maent i gyd yn llwyddiannus wrth osod trefn ddyddiol i weithgaredd y plant. Llwyddwyd i gynnwys y plant wrth gytuno rheolau'r cylch a lluniwyd poster effeithiol i esbonio'r rheolau gan ddefnyddio'r plant fel modelau. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les y plant.

Un o gryfderau'r cylch yw'r berthynas hyfryd sy'n bodoli rhwng yr ymarferwyr a'r plant ynghyd ag ymwybyddiaeth drylwyr y staff o anghenion pob plentyn. O ganlyniad, maent yn llwyddo i greu awyrgylch dysgu effeithiol a chynhyrchiol. Mae'r ymarferwyr yn llwyddo i gynnal cyflymder da i'r sesiynau gan ymglymu pob plentyn yn y gweithgareddau'n llwyddiannus. Llifa'r sesiynau o un i'r llall yn rhwydd iawn heb i'r plant golli diddordeb. Mae'r cydbwysedd da rhwng y gweithgareddau mae'r plant yn eu dewis a'r rhai a arweinir gan oedolion. Mae'r ymarferwyr yn modelu'r iaith Gymraeg yn dda ac yn defnyddio medrau holi a siarad gyda'r plant yn gyson. Mae hyn yn datblygu medrau llafar a rhifedd y plant yn dda.

Mae gweithdrefnau asesu'r cylch yn gadarn ac mae'r ymarferwyr i gyd yn cyfrannu at y broses. Maent yn cymryd nodiadau yn ddyddiol o'r hyn mae'r plant yn llwyddo i'w wneud neu beidio, ac yn cyd-drafod a rhannu'r wybodaeth ar ddiwedd y sesiwn. Trwy hyn, maent yn dod i adnabod yr hyn sydd angen ei ddatblygu ymhellach er mwyn symud pob plentyn ymlaen yn llwyddiannus. Defnyddir y wybodaeth hon yn effeithiol wrth gynllunio. Yn ddiweddar, mae'r cylch wedi diwygio eu gweithdrefnau asesu er mwyn asesu pob plentyn ar fynediad. Mae'r arsylwadau dyddiol yn cael eu bwydo i mewn i gofnod o gynnydd unigol ar gyfer datblygiad yn y chwe maes dysgu. Mae hyn yn cychwyn cael effaith gadarnhaol ar safonau.

Mae'r wybodaeth i rieni ar ddiwedd y flwyddyn yn cyfleu datblygiadau'r plant ar draws meysydd y Cyfnod Sylfaen yn dda.

## Gofal, cymorth ac arweiniad: Da

Mae trefniadau'r cylch i hyrwyddo byw yn iach yn llwyddiannus. Sicrheir bod y plant yn cael cyfleoedd cyson i gael ymarfer corfforol trwy weithgareddau sydd wedi eu cynllunio'n bwrpasol. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer sicrhau lles, datblygiad moesol, ysbrydol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn effeithiol iawn. Serch hynny, ni roddir digon o gyfleoedd i blant werthfawrogi pwysigrwydd cynaliadwyedd.

Mae'r ymarferwyr yn gyson wrth ddatblygu gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch a pharch ac yn gwneud hynny'n llwyddiannus. Maent yn annog y plant yn effeithiol i aros a chymryd eu tro, er enghraifft wrth olchi dwylo. Datblygir medrau cymdeithasol y plant yn effeithiol yn ystod y cyfnod byrbryd ac mae'r ymarferwyr yn annog y plant i gymryd cyfrifoldeb wrth weithredu fel "helpar y dydd".

Mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Cloir y drws allanol a chymerir gofal da pan fydd plant yn cyrraedd ac yn cael eu casglu. Mae'r ymarferwyr yn sicrhau bod y plant yn cael eu trosglwyddo yn ddiogel i ofal eu rhieni neu ofalwr.

Mae prosesau cadarn ar waith i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol. Mae adolygiadau rheolaidd o gynnydd plant yn sicrhau bod unigolion sy'n cael eu hamau o fod ag angen cymorth ychwanegol yn cael eu nodi. Mae'r staff yn trafod anghenion y plant hyn gyda'r asiantaethau priodol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae awyrgylch cartrefol iawn o fewn y lleoliad. Mae'r ethos yn hollol gynhwysol ac mae pob plentyn yn cael ei barchu ac yn cael yr un chwarae teg a'i drin yn gyfartal. O ganlyniad, mae plant yn ymgartrefu'n dda yn y cylch.

Mae gan bob ymarferwr gymwysterau priodol i gwrdd â gofynion y Cyfnod Sylfaen. Mae digon o adnoddau addas o fewn y lleoliad er mwyn ateb gofynion y chwe maes dysgu a defnyddir hwy yn dda i gyfoethogi profiadau'r plant a'u sbarduno. Mae'r ymarferwyr yn darparu amgylchfyd deniadol a symbylus iawn gydag ardaloedd pwrpasol i ddatblygu medrau llythrennedd a rhifedd. Rhoddir pwyslais iach ar fwynhad ac mae'r plant yn elwa o hyn yn fawr trwy ddewis chwarae yn y caffi. Maent yn gwneud defnydd effeithiol o arddangosfeydd lliwgar a deniadol er mwyn atgyfnerthu'r dysgu a dathlu gwaith y plant.

Gwna'r lleoliad ddefnydd effeithiol iawn o'r tu allan er mwyn datblygu medrau corfforol ac ymchwilgar y plant. Er enghraifft, wrth fynd am dro i sylwi ar hyn sy'n tyfu o amgylch tir yr ysgol ac yn y potiau tyfu o amgylch caban y cylch.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan arweinwyr y cylch weledigaeth glir o beth sydd angen ei wneud i sicrhau lles a datblygiad plant y cylch. Mae'r weledigaeth wedi ei rhannu'n effeithiol gyda'r staff fel bod ganddynt ddealltwriaeth dda o rolau a dyletswyddau dyddiol. Derbynia'r staff gyfarwyddyd pwrpasol am yr hyn sydd angen ei wneud, er enghraifft wrth asesu ar y cyd. Mae'r arweinwyr yn hyrwyddo cydweithio tîm effeithiol iawn ac ethos gofalgar a chroesawus iawn lle mae pawb yn hapus.

Mae swyddogion y pwyllgor yn wybodus iawn am berfformiad y cylch ac yn ymwybodol o gryfderau a'r mannau sydd angen eu datblygu. Maent yn ymweld yn gyson â'r cylch er mwyn gweld y plant ar waith, trafod gydag ymarferwyr a chael gwybodaeth ar lafar gan yr arweinydd. Serch hynny, nid yw'r broses o gyflwyno adroddiadau i'r pwyllgor rheoli wedi ei ffurfioli yn ddigon cadarn. Mae'r pwyllgor yn deall eu rolau a chyfrifoldebau wrth sicrhau polisïau a gweithdrefnau priodol ar gyfer cynnal y cylch yn effeithiol. Mae prosesau effeithiol i reoli perfformiad ymarferwyr yn flynyddol. Mae'r hyfforddiant mae'r staff yn ei dderbyn yn seiliedig ar anghenion y cylch ac yn bwrpasol er mwyn gwella'r ddarpariaeth.

Rhoddir ystyriaeth drwyadl i flaenoriaethau cenedlaethol fel gweithredu'r Cyfnod Sylfaen a bwyta'n iach.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae dealltwriaeth yr arweinydd o'r broses gwella ansawdd yn datblygu'n dda ac mae wedi elwa o'r gefnogaeth sirol ar hunanarfarnu a chynllunio i ddatblygu. Defnyddir arfarniadau allanol yn dda er mwyn gwella darpariaeth y cylch a chodi safonau. Mae'r cylch wedi ymateb yn dda i argymhellion yr arolygiad blaenorol.

Mae'r broses hunanarfarnu yn dechrau gwreiddio ac mae'r cylch yn holi barn rhieni drwy holiaduron ac yn defnyddio'r wybodaeth yn bwrpasol. Arweiniodd y broses at lunio adroddiad a drafodwyd gyda swyddogion y pwyllgor rheoli a'r staff. Mae'r adroddiad hwn yn dangos bod yr arweinwyr yn adnabod beth mae'r cylch yn ei wneud yn dda. Mae hefyd yn adnabod y meysydd i'w datblygu yn gywir. Mae'r cyswllt rhwng yr hunanarfarniad a thargedau'r cynllun datblygu yn glir ac mae tystiolaeth eisoes bod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar y ddarpariaeth, yn arbennig o ran cynllunio ac asesu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd effeithiol o ystod o bartneriaethau ac mae hyn yn cyfoethogi'r ddarpariaeth a chryfhau safonau a lles y plant.

Mae'r bartneriaeth gyda'r ysgol leol lle mae'r cylch yn cwrdd yn gryfder amlwg ac o ganlyniad, mae'r plant yn gyfarwydd iawn â gweithdrefnau'r ysgol cyn cychwyn yno. Mae'r bartneriaeth hon yn cael effaith gadarnhaol ar safonau a lles y plant a dealltwriaeth yr ymarferwyr o reoli ymddygiad. Yn yr un modd, mae'r bartneriaeth agos iawn gyda'r Cylch Ti a Fi yn gymorth i'r plant hynny deimlo'n ddiogel wrth drosglwyddo i'r cylch meithrin.

Mae partneriaethau gyda rhieni hefyd yn effeithiol. Mae'r cylch yn cymryd camau pwrpasol i roi gwybod i rieni am gynnydd eu plentyn a bywyd y lleoliad. Mae gweithdrefnau da i gyflwyno plant newydd i'r lleoliad ac, o ganlyniad, maent yn hapus ac yn ymgartrefu'n gyflym. Mae rhieni yn cefnogi'r lleoliad gyda gweithgareddau codi arian yn gyson. Serch hynny, nid yw pob rhiant yn cael digon o rybudd i'w hysbysu pan na fydd y cylch ar agor oherwydd hyfforddiant i staff.

Mae gan y lleoliad bartneriaethau buddiol gydag athrawes ymgynghorol yr awdurdod lleol a Mudiad Ysgolion Meithrin. Trwy'r partneriaethau hyn, mae'r ymarferwyr yn derbyn syniadau newydd trwy hyfforddiant, ac yn arbrofi â gwahanol ffyrdd o weithio er mwyn cyfoethogi'r ddarpariaeth a chodi safonau.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r lleoliad yn gwneud defnydd da o staff ac adnoddau i gefnogi addysgu a dysgu. Mae'r arweinwyr yn sicrhau bod gan y lleoliad ddigon o staff â chymwysterau addas. Maent yn defnyddio ymarferwyr yn effeithiol gan wneud y defnydd gorau o'u profiad a'u harbenigedd. Mae hyn yn cyfrannu'n helaeth at godi safonau darpariaeth a sicrhau lles y plant.

Mae ymarferwyr yn cael mynediad i ystod effeithiol o hyfforddiant addas.  Mae hyn yn sicrhau bod ymarferwyr yn parhau i adeiladu ar eu medrau, er enghraifft wrth ddatblygu medrau rhifedd y plant a chyd-asesu a chynllunio.

Mae’r arweinwyr yn cynhyrchu mantolen ariannol yn flynyddol ac maent yn dyrannu cyllid yn briodol i flaenoriaethau'r lleoliad.

O ystyried y canlyniadau cadarnhaol a gyflawnwyd gan blant, mae'r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i rieni

Derbyniwyd llai na 10 ymateb.  Ni chaiff unrhyw ddata ei ddangos.

## Atodiad 2

### Yr arolygydd cofnodol

| | |
|---|---|
| Mr Maldwyn Pryse | Arolygydd Cofnodol |

### Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o'r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae'r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy'n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Llywodraeth Cymru sy'n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy'n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae'r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a'r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy'n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw'n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu'r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae'r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br><br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu'r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o'r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae'r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi'r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru'r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |